

PEN Y MYNYDD



Dy ro dy law i mi ac fe awn i ben y mynydd!



Wythnos Gyfoethogi - Blwyddyn 12

Croesawyd Blwyddyn 12 yn ôl i'r ysgol ar gyfer wythnos gyfoethogi wedi'r arholiadau. Cafwyd cyflwyniadau gan Brifysgolion Abertawe a Chaerdydd ar y broses UCAS a chyflwyniad gan Gyrrfa Cymru ar brentisiaethau, profiad gwaith a CVs. Ysbrydolwyd disgyblion gan gwmni Morgan Sindall ar Brentisiaethau Gradd, a chafwyd gwybodaeth werthfawr gan Goleg Cymraeg Cenedlaethol am ysgoloriaethau. Cyflwynwyd cynlluniau busnes i berchennog y Goodsheds, a mwynhawyd gweithdy cyfreithiol a sesiwn ar yrfaeod yn y GIG. Cafwyd cyfle i wirfoddoli yn Ysbyty'r Barri, ennill cymwysterau gofal plant, a derbyn cyngor diogelwch ar y ffyrdd. Rhoddwyd cyfleoedd uwch-gwricwlaidd drwy'r Brifysgol Agored, Springpod a Speakers for Schools. Gorffennwyd yr wythnos gyda sesiwn goginio a gemau chwaraeon – profiad llawn hwyl a buddiol.

Year 12 - Enrichment Week

Year 12 were welcomed back to school for an enrichment week following the exam period. Presentations were given by Swansea and Cardiff Universities on the UCAS process, along with a Careers Wales session on apprenticeships, work experience, and CVs. Students were inspired by a talk from construction company Morgan Sindall on Degree Apprenticeships, and valuable information was provided by the Coleg Cymraeg Cenedlaethol regarding scholarships. Business plans were presented to the owner of the Goodsheds, and a legal workshop and a session on NHS careers were thoroughly enjoyed. There were opportunities to volunteer at Barry Hospital, gain childcare qualifications, and receive road safety advice. Enrichment opportunities were also offered through the Open University, Springpod, and Speakers for Schools. The week ended with a cooking session and inter-house sports – a fun and beneficial experience for all.



Parkrun - Blwyddyn 7

Fel ran o wersi Iechyd a Lles, mae pawb ym mlwyddyn 7 wedi dilyn rhaglen ymarfer 'Couch to 5km' yn ystod Tymor Y Gwanwyn. Ar fore Sadwrn braf ym mis Ebrill rheddodd dros 75 o ddisgyblion ynghyd â staff a rhieni y Parkrun Ynys Y Barri.

Parkrun - Year 7

As part of their Health and Wellbeing lessons, all Year 7 pupils followed the 'Couch to 5km' programme during the Spring Term. On a beautiful Saturday morning in April, over 75 pupils, along with staff and parents, took part in the Barry Island parkrun.

Prif ddisgyblion 2025-2026

Rydym yn falch iawn o gyflwyno Prif Ddisgyblion a Dirprwy Brif Ddisgyblion Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg 2025-26. Llongyfarchiadau mawr!

Owen Weeks ac Alys Evans – Prif Ddisgyblion

Marged Evans, Aled Phillips, Wil Thomas – Dirprwy Brif Ddisgyblion

Head pupils 2025-2026

We are very proud to introduce the Head Pupils and Deputy Head Pupils of Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg for 2025-26. Huge congratulations!

Owen Weeks and Alys Evans – Head Pupils

Marged Evans, Aled Phillips, Wil Thomas – Deputy Head Pupils





Gŵyl Fach y Fro

Cawsom ddiwrnod bendigedig yn haul mis Mai ar Ynys y Barri yng Ngŵyl Fach y Fro eleni. Cafodd Blwyddyn 1 a 2 gyfle i berfformio a hyfryd oedd eu clywed yn morio canu. Am y tro cyntaf eleni fe gafodd disgyblion Ysgol Uchaf Bro Morgannwg y profiad o ganu ar Brif Lwyfan yr Ŵyl. Ymunodd disgyblion Blwyddyn 5 holl ysgolion ein clwstwr cynradd gyda nhw i berfformio medli o ganeuon y sioe gerdd Les Mis. Denwyd tipyn o gynulleidfa i wrando ar y perfformiad arbennig hwn. Ein gobaith yw datblygu hyn ar gyfer blwyddyn nesaf a gweld y Côr clwstwr yn mynd o nerth i nerth.

Gŵyl Fach y Fro

We had a wonderful day in the May sunshine on Barry Island at this year's Gŵyl Fach y Fro. Year 1 and 2 had the opportunity to perform, and it was lovely to hear them singing with such enthusiasm. For the first time this year, pupils from Bro Morgannwg Upper School had the experience of singing on the Festival's Main Stage. Year 5 pupils from all our cluster primary schools joined them to perform a medley of songs from the musical Les Misérables. A considerable audience was drawn in to enjoy this special performance. Our hope is to build on this for next year and see the Cluster Choir go from strength to strength.



Eisteddfod yr Urdd, Parc Margam

Cafwyd llwyddiant arbennig yn Eisteddfod yr Urdd, Margam eleni gyda'r ysgol yn cipio 6 gwobr gyntaf ac 1 3ydd. Dyma grynodeb o'r canlyniadau. Llongyfarchiadau mawr i bob disgybl fu'n cystadlu a diolch i'r staff ymroddedig fu'n brysur yn eu hyfforddi.

- 1af Unawd Bechgyn Bl 10-13 - Logan Burrows
- 1af Unawd Gitâr Bl 10-13 - Stef Maurer
- 1af Cystadleuaeth Ffotograffiaeth Bl 7-9 - Osian Gibson
- 1af Cystadleuaeth Gyfansoddi - Idris Glyn Jones
- 1af Ensemble Lleisiol Bl 10-13
- 1af Grŵp Dawns Aml gyfrwng
- 3ydd Grŵp Dawns Stryd

Eisteddfod yr Urdd, Parc Margam

We had a particularly successful week at this year's Urdd Eisteddfod in Margam, with the school winning 6 first prizes and 1 third place. Here is a summary of the results. A huge congratulations to every pupil who took part and thanks to the dedicated staff who worked hard to prepare them.

- 1st Boys' Solo Years 10-13 - Logan Burrows
- 1st Guitar Solo Years 10-13 - Stef Maurer
- 1st Photography Competition Years 7-9 - Osian Gibson
- 1st Composition Competition - Idris Glyn Jones
- 1st Vocal Ensemble Years 10-13
- 1st Multimedia Dance Group
- 3rd Street Dance Group



Cwrs Preswyl Glan-Ilyn - Blwyddyn 9

Aeth dros 100 o ddisgyblion ar daith breswyl flynyddol Bl 9 i Lan-Ilyn ddiwedd mis Mehefin. Cawsant brofiadau arbennig, newydd ac amrywiol wrth brofio'r holl weithgareddau dŵr ar Lyn Tegid, cerdded afon a chyfle i gymdeithasu gyda'u ffrindiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y tywydd yn fendigedig ac fe welsant Ogledd Cymru ar ei gorau. Diolch yn fawr i'r staff oedd yn rhan o'r daith am gynnis y profiad yma i'r disgyblion.

Glan-Ilyn residential course - Year 9

Over 100 pupils took part in the annual Year 9 residential trip to Glan-Ilyn at the end of June. They pupils had fantastic, new, and varied experiences as they tried all the water activities on Lake Tegid, went river walking, and had the opportunity to socialise with their friends through the medium of Welsh. The weather was wonderful, and they saw North Wales at its best. A big thank you to the staff who were part of the trip for providing this experience for the pupils.

Gŵyl y Gelli

Roedden ni mor gyffrous i fynd i Ŵyl y Gelli - trip ysgol oedd e wedi'r cyfan! Fe welon ni Alistair Campbell yn siarad am ei lyfr gwleidyddol i blant ac fe lofnododd ein llyfrau. Fe ddywedon ni ein bod yn hoff o'i bodlediad - roedd e mor gyfeillgar! Ar ôl cael hufen iâ a llun o flaen yr arwydd enwog, cawsom gyfwyniad pwerus gan Philippa Gregory am fenywod mewn hanes. Cyn mynd adref, dysgodd Casi Wyn i ni sut i ysgrifennu stori - bydd ein hathrawon wrth eu boddau!

Hay Festival

We were so excited to get to the Hay Festival, just because we were on a school trip! First, we went to see Alistair Campbell talk about his politics book for children. We queued to get him to sign our books and said we liked his podcast - he was so friendly! After an ice cream and a photo by the iconic Hay Festival sign, we went to see Philippa Gregory who gave a powerful talk about women in history. Before going home, Casi Wyn taught us how to write stories, so our teachers are in for a treat!

Gan Gruffydd Bennett, Jack Roberts, Ioan Lillford a Zander Hudson Evans



Dug Caeredin - Blwyddyn 9

Fel rhan o Wobr Dug Caeredin Efydd, bu dros 70 o ddisgyblion Blwyddyn 9 yn cymryd rhan mewn dwy aldaith wahanoli Benrhyn Gŵyr. Yn ystod y penwythnos, cerddodd y disgyblion bron i 15km o Southgate i Rhossili, gan wersylla dros nos yn Bank Farm. Ar hyd y ffordd, dilynodd y disgyblion lwybr arfordirol prydferth Cymru gan ddefnyddio map a sgiliau cyfeiriannu wrth weithio fel tîm. Gwelsom frwdfrydedd a phenderfyniad gwirioneddol, gyda'r disgyblion yn goresgyn heriau a chefnogi ei gilydd drwy gydol y daith. Nawr, bydd y disgyblion yn troi eu sylw at gwblhau eu gwirfoddoli, sgiliau ac elfennau corfforol. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymerodd rhan - staff a disgyblion yn yr un modd - am eu hymdrech, cydweithrediad, a'u dyfalbarhad.

Duke of Edinburgh- Year 9

As part of the Duke of Edinburgh's Bronze Award, over 70 Year 9 pupils took part in two different expeditions to the Gower Peninsula. During the weekend, the pupils walked nearly 30km from Southgate to Rhossili, camping overnight at Bank Farm. Along the way, the pupils followed the beautiful Welsh coastal path using their maps and navigation skills while working as a team. They showed real enthusiasm and determination, overcoming challenges and supporting each other throughout the journey. Now, the pupils will turn their attention to completing their volunteering, skills, and physical elements. A huge congratulations to everyone who took part - staff and pupils alike - for their effort, teamwork, and perseverance.



Rhannu'r llwyfan gyda Bronwen

Cafodd grŵp Dagrau Tân brofiad arbennig yng Ngŵyl Gerdd Dinas Powys ym mis Mai wrth rannu'r llwyfan gyda'r gantores Bronwen Lewis. Fe bostiodd hi ar ei chyfryngau Cymdeithasol ei bod wrth ei bodd yn 'rhannu'r llwyfan gyda thalent newydd Cymreig'. Mae hi wedi bod yn dipyn o flwyddyn i Dagrau Tân yn perfformio yng Ngŵyl Fach y Fro, Gŵyl Triban yr Urdd ac yng Ngŵyl Tafwyl.

Sharing the stage with Bronwen

The group Dagrau Tân had a special experience at the Penarth Music Festival in May when they shared the stage with singer Bronwen Lewis. Her social media post read 'Lucky to have Dagrau Tân supporting me this evening, love sharing the stage with new, Welsh talent'. It's been quite a year for Dagrau Tân, performing at Gŵyl Fach y Fro, the Urdd's Triban Festival, and at Tafwyl.





Taith Dinbych y Pysgod – Blwyddyn 8

Cafodd criw o ddisgyblion Blwyddyn 8 gyfle i dreulio amser arbennig yn Ninbych-y-pysgod, mewn gweithgareddau Dysgu Byw wedi'u cynllunio i roi profiad ymarferol a difyr iddynt ar ddiwedd mis Mehefin. Bu'r disgyblion yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau yn y dŵr a dysgu am y prosesau arfordirol, gan ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r amgylchedd naturiol lleol. Roedd eu hymddygiad yn arbennig o dda drwy gydol y daith. Mae nifer o drigolion Dinbych-y-pysgod wedi mynegi canmoliaeth uchel am ymroddiad y disgyblion a'u hymdrechion i ddangos Cymreictod a pharch tuag at y gymuned leol. Roedd y daith yn llwyddiant mawr ac yn enghraifft wych o sut mae Dysgu Byw yn gallu cyfrannu at ddatblygiad y disgyblion mewn ffordd ymarferol a chreadigol.



Tenby Trip – Year 8

A group of Year 8 students had an opportunity to spend time in Tenby at the end of June, participating in Outdoor Learning activities designed to provide them with a practical and enjoyable experience. The students experienced a variety of water-based activities and learned about coastal processes, developing a deeper understanding of the local natural environment. Their behaviour throughout the trip was exceptionally good. Several residents of Tenby have expressed high praise for the students' commitment and efforts to demonstrate Welsh identity and respect towards the local community. The trip was a great success and an excellent example of how Outdoor Learning can contribute to students' development in a practical and creative way.

Taith Paris - Blwyddyn 8

Roedd y daith i Baris yn anhygoel a llawn atgofion bythgofiadwy! Cawsom benwythnos hir llawn profiadau a gweithgareddau hwyl. Ar ein diwrnod cyntaf, roedd hi mor gyffrous i deithio i Parc Astérix gyda'r gerddoriaeth yn atseinio drwy'r bws a hwyliau pawb yn dda! Ar ôl diwrnod llawn hwyl a sbri o droi a throelli ar y reidiau aethom ni nôl i'r gwesty moethus a chael noson lawn o gwsig yn barod am ddiwrnod yn ymweld â'r brif ddinas. Roedd hi'n fraint i ymweld ag atyniadau mwyaf deniadol Paris fel yr Arc de Triomphe, Louvre, Sacré Coeur, cwch lawr yr afon Seine a gweld y Tŵr Eiffel. Byddwn yn argymhell y trip yma os ydych am gael profiad arbennig o weld uchafbwyntiau Paris gyda ffrindiau. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'n hathrawon am fynd â ni! Merci beaucoup!

Paris Trip – Year 8

The trip to Paris was incredible and full of unforgettable memories! Our journey was full of new and fun experiences and activities. On our first day, it was so exciting to travel to Parc Astérix with the music blasting and the spirits as high as ever! After a fun-filled day of twisting and turning on the rides, we returned to our luxurious hotel and had a full night's sleep ready for a day packed with sightseeing in the capital. It was a privilege to visit Paris's most iconic landmarks such as the Arc de Triomphe, the Louvre, the Sacré Coeur, a River trip down the Seine with a fantastic view of the Eiffel Tower. We would highly recommend this trip if you want an incredibly special experience of seeing the highlights of Paris with friends. We are very grateful for the amazing opportunity to visit the city. Merci beaucoup!

Gan Indeg, Scarlett, Nia a Hanna, Blwyddyn 8





Gwylwch ar Instagram a gwefan yr ysgol.

Watch on Instagram and the School website.

@ysgolyfro

www.ygbm.cymru

Llwyddiant Mathemateg

Unwaith eto eleni dewiswyd disgybl i dderbyn 'Gwobr Rhodri Miller'. Enillydd y wobwr ar gyfer 2025 oedd Stef Maurer o Flwyddyn 13. Llongyfarchiadau mawr iddi! Dywedodd yr Adran Fathemateg fod Stef wedi dangos gallu arbennig yn y pwnc ers blynyddoedd. Mae wedi astudio Mathemateg a Mathemateg Bellach i Lefel A ac meddai Miss Ifans, Pennaeth yr Adran Fathemateg, 'Stef yw un o'r disgyblion mwyaf galluog ym Mathemateg yr wyf erioed wedi ei haddysgu. Dyma ddisgybl sydd â dawn naturiol ond hefyd â diddordeb yn y pwnc ac sydd wedi dangos mwynhad a brwdfrydedd am Fathemateg. Mae'n llawn haeddiannol o'r wobwr. Dymunwn bob lwc iddi yn y brifysgol.



Mathematics Success

Once again, a student was selected to receive the 'Rhodri Miller Award'. The winner of the award this year Stef Maurer of Year 13. A huge congratulations! The Mathematics department said that Stef has shown exceptional ability in the subject for years. She has studied Mathematics and Further Mathematics at A Level and Miss Ifans, Head of the Department, said 'Stef is one of the most able students I have ever taught. This is a student with a natural talent but also an interest in the subject who has shown enjoyment and enthusiasm for Mathematics. She is fully deserving of the award. We wish her all the best at university.'

Ymweliad â'r Adran Gelf

Cafodd disgyblion Blwyddyn 10 gyfle gwerthfawr i weithio gyda'r arlunwraig Lleucu Non wrth baratoi gwaith ar gyfer Gŵyl Fach y Fro. Roedd Lleucu Non wedi ymweld â'r Adran Gelf a chyflwyno ei gwaith animeiddio a cherddoriaeth i'r disgyblion. Cawsom gyfle i fraslunio delweddau, ar y cyd gyda Lleucu, yn ymwneud gyda phobl yn mwynhau ar lan y môr. Defnyddiwyd y gwaith er mwyn creu baneri fel rhan o ddathliadau'r wyl.

A visit to the Art Department

Year 10 pupils had a worthwhile experience to work with the artist Lleucu Non preparing work for Gŵyl Fach y Fro. Lleucu visited the Art Department and introduced her animation and music work to the pupils. They then had the opportunity to sketch images, alongside Lleucu, of people enjoying themselves at the seaside. This work was used to create flags as part of the festival celebrations.



Taith Harry Potter – Blwyddyn 7

Ym mis Mai, aeth Blwyddyn 7 ar daith hudolus i Stiwdio Warner Bros. Harry Potter. Cafodd y disgyblion gyfle i archwilio setiau, props, ac elfennau technegol a ddaeth â byd J.K. Rowling yn fyw. Uchafbwynt y diwrnod oedd y wers gan dîm addysg y stiwdio, lle crëwyd byrddau stori unigryw, gan gyfuno creadigrwydd â dysgu am fyd ffilm.

Dywedodd Zoe Walmsley fod y Goedwig Wybodus a Buckbeak yn anhygoel, a disgrifiodd Ioan Lilliford deimlad arbennig wrth gamu i mewn i'r Neuadd Fawr fel pe bai'n wirioneddol yn Hogwarts.

Harry Potter Studio Trip – Year 7

In May, Year 7 went on a magical trip to the Warner Bros. Harry Potter Studio. Pupils had the opportunity to explore the sets, props, and technical elements that brought J.K. Rowling's world to life. A highlight of the day was a lesson delivered by the studio's education team, where students created their own unique storyboards – a perfect blend of creativity and learning about the world of film.

Zoe Walmsley said the Forbidden Forest and Buckbeak were amazing, and Ioan Lilliford described the special feeling of stepping into the Great Hall as if he were truly entering Hogwarts.

Ysgrifennu Creadigol Saesneg

Once again, Year 7 have been busy in the English Department competing in the Young Writers Competition. Before half term Year 7 completed a creative writing challenge titled 'Grimm Tales' which allowed for a 100-word minisaga to be written following an original or re-written fairy tale. With limited prizes and places to be published, 24 of our students were chosen to have their work published in an anthology of stories, to be released soon. Congratulations to those whose work was published, and good luck to those who will be taking part in the next competition!

English Creative Writing

Unwaith eto mae blwyddyn 7 wedi bod yn brysur yn yr adran Saesneg yn cystadlu yn y gystadleuaeth 'Ysgrifenywyr Ifanc'. Cyn hanner tymor, bu blwyddyn 7 yn cyflawni her ysgrifennu greadigol hefo'r teitl 'Grimm Tales' – ysgrifennu stori fer o 100 gair yn dilyn stori gwreiddiol neu ail-ysgrifeniad o stori. Llwyddodd 24 o'n ddisgyblion i gael eu gwaith wedi ei ddewis i gael ei gyhoeddi mewn llyfr sydd am ddod allan yn fuan. Llongyfarchiadau i bawb, a phob lwc i'r rhai sydd am gymryd rhan yn y gystadleuaeth nesaf!

Llwyddiannau Addysg Gorfforol Department of Physical Education

Ein timau / Our teams

Cyrhaeddodd dîm rygbi Blwyddyn 10 rownd cyn-derfynol cwpan Cymru cyn colli mewn gêm gystadleuol iawn yn erbyn Ysgol Bro Myrddin o 21-7. Rydym yn hynod falch o'r bois, o'u hymdrechion a'u hagwedd.

The Year 10 rugby team reached the semi-final of the Welsh Cup before losing in a very competitive game against Ysgol Bro Myrddin by 21-7. We are extremely proud of the boys, their efforts, and their attitude



Hyfryd oedd croesawu ein ffrindiau o Ganada unwaith eto. Diolch i'r Toronto Nomads am y gêm a'r dathlu a'r sgwrsio ar ôl y gêm.

It was a pleasure to welcome our friends from Canada once again. Thank you to the Toronto Nomads for the game, the celebration, and the post-match conversation.

Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl rhwyd Blwyddyn 8 ar ddod yn 4ydd yn rowndiau terfynol y Sir. Tymor llwyddiannus iawn!

Congratulations to the Year 8 netball team for finishing 4th in the County finals. A very successful season!



Tipyn o lwyddiant i dîm pêl rhwyd Blwyddyn 12 a 13 wrth iddyn gipio'r 2il safle yn y Sir eleni! Gwych ferched!

A great achievement for the Year 12 and 13 netball team as they secured 2nd place in the County this year! Well done, girls!



Rydym yn falch iawn o dîm rygbi 7-bob-ochr Blwyddyn 12 ac 13 gystadlodd yn nhwnamaint yr Urdd. Fe gyrhaeddodd nhw rownd yr 8 olaf yn y Cwpan. Ymdrech dda iawn fechgyn!

We are very proud of the Year 12 and 13 seven-a-side rugby team who competed in the Urdd tournament. They reached the quarter-finals of the Cup. A great effort, boys!



Am dymor i dîm Rygbi 7-bob-ochr Blwyddyn 7 – buddugol yng nghystadleuaeth y plat. Mae dyfodol disglair o flaen y tîm yma. Da iawn bois!

For the Year 7 Rugby Sevens team – victorious in the plate competition. A bright future lies ahead for this team. Well done, boys!



Cawsom ddeuddydd arbennig o Chwaraeon Rhyngysol cyn y Pasg. Roedd cyfranogiad y disgyblion yn arbennig – môr o goch, glas a gwyrd d wrth i bawb gystadlu yn frwd dros eu llysoedd.

We had two fantastic days of Inter-House Sports before Easter. Pupil participation was outstanding – a sea of red, blue, and green as everyone competed enthusiastically for their houses.



Llwyddiant mawr i dîm Pêl droed Blwyddyn 7 - Pencampwyr Caerdydd a'r Fro! Ar ôl bod lawr o 3-0 hanner amser, y sgôr terfynol oedd 4-3 i'r Fro!

Great success for the Year 7 football team – Cardiff and the Vale Champions! After being 3-0 down at half-time, the final score was 4-3 to Bro Morgannwg!



Mae Tîm Blwyddyn 7A yn bencampwyr hoci Y Sir! Gemau agos a safonol iawn gyda'r Fro yn cipio'r fuddugoliaeth yn yr eiliadau olaf y gem derfynol. Arbennig!

Year 7A Team are the County Hockey Champions! Very close and high-quality games, with the Vale clinching victory in the final moments of the final match. Amazing!



Cyfle newydd - Pêl droed Gaeleg

Ar Fehefin 10fed, teithiodd 15 disgybl Blwyddyn 7 i Ysgol Bishop Vaughan, Abertawe, i gymryd rhan yn y gêm bêl-droed Gaeleg gystadleuol gyntaf rhwng dwy ysgol yng Nghymru. Cynhaliwyd yr ail gêm yr wythnos ganlynol yn Ysgol Bro Morgannwg gyda Michelle Ryan o Gonfensiwn Gweriniaeth Iwerddon yn bresennol. Roedd y safon yn uchel, gyda disgyblion Bro Morgannwg yn perfformio'n dda yn erbyn tîm mwy profiadol. Bydd y clwb pêl-droed Gaeleg yn parhau ar ôl yr haf, gyda mwy o gemau a chydweithio â Bishop Vaughan a chlybiau eraill yn Ne Cymru.

New opportunity - Gaelic Football

On June 10th, 15 Year 7 pupils travelled to Bishop Vaughan School in Swansea to take part in the first ever competitive Gaelic football match between two schools in Wales. The second match took place the following week at Ysgol Bro Morgannwg, with Michelle Ryan from the Consulate of the Republic of Ireland in attendance. The standard of play was high, with Bro Morgannwg pupils performing well against a much more experienced team. The school's Gaelic football club will continue after the summer holidays, with more matches and collaboration with Bishop Vaughan and other schools working to grow the game in South Wales.



Mae timoedd athletau yr Ysgol wedi bod yn cystadlu yn frwd drwy dymor yr Haf. Uchafbwynt yw bod tîm bechgyn Bl 7 ac 8 wedi cyrraedd rowndiau terfynol Cymru yn Aberdar. Dymuniadau da i bob un ohonynt!

The school's athletics teams have been competing enthusiastically throughout the summer term. A highlight is that the Year 7 and 8 boys' team reached the Welsh finals in Aberdare. Best wishes to all of them!

Mae Tîm tenis Bechgyn Bl.9 a 10 yn bencampwyr Ysgolion De Cymru. Tipyn o gamp a llongyfarchiadau mawr.

The Year 9 and 10 Boys' Tennis Team are South Wales School Champions. Quite an achievement - many congratulations!



Llwyddiannau Cenedlaethol/ National Successes

Llongyfarchiadau mawr i Magi Hall o flwyddyn 10 ar gynrychioli tîm o dan 17 oed pêl rhyd Cymru yn Belfast. Rydym yn ymfalchïo'n fawr yn dy llwyddiant.

Huge congratulations to Magi Hall from Year 10 for representing the Wales Under-17 netball team in Belfast. We are very proud of your success.



Llongyfarchiadau mawr i dîm tennis merched Blwyddyn 7 ac 8 ar lwyddo dod yn drydydd ym Mhencampwriaeth De Cymru. Mae dyfodol displair o'u blaenau.

A big congratulations to the Year 7 and 8 girls' tennis team for coming third in the South Wales Championship. A bright future lies ahead of them.



Cynrychiolodd Soffia Easterby o flwyddyn 13 dîm o dan 18 oed Cymru yn erbyn Canada gan sgorio 3 gôl. Enillodd Cymru o 5-0. Am berfformiad a llongyfarchiadau mawr i Soffia ar ei llwyddiant arbennig.

Soffia Easterby from Year 13 represented the Wales Under-18 team against Canada, scoring 3 goals. Wales won 5-0. Congratulations to Soffia on her excellent performance.



Cyn-ddisgybl yn disgleirio yn yr UDA! Mae Gwenno Goode yn dal i roi balchder mawr i'r Ysgol wrth ei gweld yn serennu yn ar y trac i Brifysgol La Salle yn yr UDA. A fydd hi yn Cynrychioli Cymru yn y ras ffos a pherth 3000m cyn bo hir?

Former pupil shining in the USA! Gwenno Goode continues to make the school very proud as she stars on the track at La Salle University in the USA. Will she be representing Wales in the 3000m steeplechase before long?

Llwyddiant Golf

Llongyfarchiadau mawr iawn i Rhydian Jones, Blwyddyn 12 ar ddod yn drydydd mewn cystadleuaeth golff ysgolion Cymru gyda sgôr anhygoel o 1 yn uwch na'r safon. Gwych, Rhydian! Croesi bysedd y bydd yn cael ei ddewis i gynrychioli Cymru yn erbyn Lloegr.

Golfing Success

A huge congratulations to Rhydian Jones, Year 12, for coming third in the Welsh Schools golf competition with an incredible score of 1 over par. Brilliant, Rhydian! Fingers crossed he'll be selected to represent Wales against England.



Mae tîm Athletau Blwyddyn 7 Bechgyn yn bencampwyr Caerdydd a'r Fro. Rydym ni mor falch ohonynt!

The Year 7 Boys' Athletics team are the Cardiff and Vale champions. We're so proud of them!

Am y newyddion diweddaraf, gwylwch vlog y pennaeth ar Instagram a gwefan yr ysgol.

For the latest news, watch the heads vlog on Instagram and the school website.